

DOLEN Y TAB – 54

7–8 Mai 2021

Oedfa Bore Sul 9 Mai

Yng ngofal y Parchg. Aled Edwards.

Oedfaon gweddill mis Mai

Mai

16 Oedfa Cymorth Cristnogol yng nghwmni'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol.

23 Y Parchg. Gethin Rhys.

30 Oedfa fyw ar Zoom, gyda Heulyn a Catrin Rees (manylion Zoom i ddilyn).

Mehefin

6 Yng ngofal aelodau Pentyrch.

Hefyd ddydd Sul 9 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Rhai o weithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru sy'n arwain gwasanaeth arbennig ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, fe gawn glywed am ddathliadau'r elusen wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 75 oed.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

NEWYDDION DA!

Llongyfarchiadau gwresog i Manon a Geraint Huws ar enedigaeth merch fach, Miriam Elain, ar 27 Ebrill – dridiau cyn bod ei chwirydd yn dathlu eu pen blwydd yn dair oed! Gan ei bod wedi cyrraedd yn gynnar, mae'r fechan a'i mam yn aros yn Ysbyty'r Waun am ychydig – ond buan iawn y caiff Ffion a Nia gyfle i groesawu eu chwaer fach i'w cartref yn Efail Isaf. Pob dymuniad da i'r teulu bach, ac wrth gwrs i Mam-gu a Tad-cu, Rhiannon a Gareth Humphreys.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 11 Mai. Os oes unrhyw sylw neu fater y carech ei godi yn y cyfarfod hwnnw, anfonwch air at yr Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327 **erbyn dydd Llun 10 Mai fan bellaf.**

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL Mai 10–16, 2021

Eleni, bydd Cymorth Cristnogol yn casglu ar gyfer lleddfu problemau sy'n wynebu nifer o wledydd oherwydd y sychder a geir yn sgil newid hinsawdd. Unwaith eto, fydd dim modd casglu o ddrws i ddrws, a byddwn ni yn y Tabernacl yn dilyn yr un cyfarwyddiadau â'r llynedd, gan gyfrannu drwy sieciau a throsglwyddiadau banc. Dyma'r manylion cyfrannu ar gyfer y casgliad pwysig hwn:

Sieciau'n daladwy i **Capel y Tabernacl Cyf**, ynghyd â'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol, i'w hanfon at:
Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

Trosglwyddiad banc, gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol:

Cod Didoli: 30 – 96 – 72

Rhif cyfrif: 03607499

DIOLCH YN FAWR,
Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Apêl DEC

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am roi gwybod i aelodau a chyfeillion y Tabernacl sy'n awyddus i gefnogi'r gwaith y mae DEC yn ei wneud i geisio lliniaru rhywfaint ar sefyllfa druenus trigolion yr India i gyfrannu'n uniongyrchol i Apêl DEC trwy ddilyn un o'r dulliau isod:

Gwefan: www.dec.org.uk

Ffôn: 037060 609000

Tecstio: DONATE i 70150 i gyfrannu £10

Gobaith Cymorth Cristnogol

I'r rhan fwyaf o aelodau a chyfeillion y Tabernacl, mae Wythnos Cymorth Cristnogol wedi bod yn rhan annatod o galendr mis Mai y capel ers blynyddoedd lawer. Mae cenedlaethau o aelodau eglwysi ledled Cymru wedi trefnu casgliad o ddrws i ddrws o fewn eu cymuned tuag at waith yr elusen bwysig hon i gynorthwyo trigolion mwyaf anghenus rhai o wledydd tlotaf y byd. Yn eu hadroddiad blynyddol diweddaraf, er enghraifft, cofnodwyd fod 40,700 o wirfoddolwyr wedi llwyddo i godi dros £7.5 miliwn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol 2019, a hynny trwy gyfuniad o gasglu o ddrws i ddrws a gweithgareddau amrywiol i godi arian. Ond mae'n bosib nad ydym lawn mor gyfarwydd â hanes cynnar, yr elusen, nac yn llwyr werthfawrogi'r ystod eang o ymgyrchoedd a drefnir ganddi'n flynyddol, nac ychwaith sut mae agenda'r elusen wedi cael ei haddasu dros amser wrth ymateb i heriau newydd sy'n wynebu'r rhanbarthau hynny sydd dan fygythiadau parhaus. Roedd hi'n agoriad llygad, felly, i mi o leiaf ddarllen am yr holl weithgarwch y mae'r elusen yn gyfrifol amdanynt neu mewn partneriaeth â mudiadau ac elusennau eraill.

Er mai yn 1957 y lansiwyd yr 'Wythnos', gellir olrhain hanes ffurfio

Cymorth
Cristnogol
yn ôl i'r
flwyddyn
1945.

Cafodd ei
sefydlu'n
wreiddiol



gan eglwysi Prydain ac Iwerddon, i gynnig cymorth ymarferol i'r ffoaduriaid truenus ar gyfandir Ewrop drannoeth yr Ail Ryfel Byd. Yn ystod y cyfnod cynnar, llwyddwyd i godi arian i ymateb ar frys i gwrdd ag anghenion teuluoedd oedd wedi ffoi o'u cynefin o ganlyniad i'r dinistr a wnaed i ddinasoedd a chartrefi yn ystod y brwydro.

Aed ati yn yr 1950au i estyn cymorth tebyg i ffoaduriaid mewn rhanbarthau eraill o'r byd, megis y Dwyrain Canol ac Asia, ac erbyn yr 1960au roedd arian apêl Cymorth Cristnogol yn ei galluogi i wneud gwahaniaeth i argyfyngau yn Nigeria, Kenya ac India. Dyma'r ddegawd hefyd y bu Cymorth Cristnogol yn gyfrifol am ffurfio DEC sy'n galluogi asiantaethau datblygu i gydweithio ar adegau o argyfwng dyngarol ar draws y byd megis y drychineb bresennol yn yr India y dyddiau hyn.

Ond er mor allweddol fu cyfraniad yr elusen am dros 75 mlynedd drwy cynnig cefnogaeth ymarferol gwbl angenrheidiol, mae hi hefyd ers blynyddoedd bellach yr un mor benderfynol o daclo'r ffactorau hynny, megis anghyfiawnder ac anghyfartaledd, sy'n achosi tlodi eithafol. Dyma fyrddwn Dr Rowan Williams, Cadeirydd Cymorth Cristnogol, yn ei ragair i'r adroddiad blynyddol:

'Mae ein hymrwymiad i sefyll gyda phobl sydd mewn tlodi, siarad y gwir wrth y rhai sydd mewn grym, a chynnyg llais i eiriol dros y rhai sydd wedi eu hamddifadu o'r cyfle, yn ymateb i fyd lle mae hawliau yn cael eu colli. Ond, diolch byth, mae hefyd yn fyd lle mae pobl yn ffurfio clymbleidiau llawr gwlad i ymgyrchu o blaid cyfiawnder a chydaddoldeb o ran hil, yr argyfwng hinsawdd ac argyfyngau eraill ein hoes.'

Yn y blwch isod, crisialir gobeithion Cymorth Cristnogol bod modd creu byd lle nad yw newyn a thlodi yn anrnod drwy herio'r systemau sy'n gormesu pobl difreintiedig.



Ein Gwerthoedd

Urddas

Credwn fod pawb yn cael eu creu yn nelw Duw, a bod iddynt oll werth cynhenid. Rydym yn brwydro dros urddas pobl eraill, ac yn eu cefnogi i newid eu bywydau eu hunain.

Cydraddoldeb

Mae pawb yn gyfartal yng ngolwg Duw. Rydym yn mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd mewn grym sy'n achosi tlodi, er mwyn creu byd lle mae gan bawb lais cyfartal, grym cyfartal a chyfleoedd cyfartal.

Cyfiawnder

Safwn ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r rhai mwyaf bregus a'r rhai sy'n cael eu hamddifadu, i adeiladu byd sy'n decach. Gyda'n gilydd, rydym yn codi ein lleisiau'n eofn i fynegi'r gwir i'r rhai sydd mewn grym, gan herio systemau a strwythurau sy'n gormesu pobl.

Cariad

Cariad sydd wrth wraidd yr hyn ydym ni. Mae cariad Duw yn ein trawsnewid: mae'n rhoi'r nerth i ni sefyll mewn undod â'n cymdogion byd-eang yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.*